

## Proffil Myfyrwyr PDC

Mae'r Dyletswyddau Penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus amlinellu'r camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol yn Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar amrywiaeth poblogaeth myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019 i 2020. Mae'r wybodaeth ystadegol yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan 18,037 myfyriwr cofrestredig (ar y campws) ym mis Medi 2019 ac mae'n cwmpasu'r holl nodweddion gwarchoddedig. Lle bo modd, cynhwysir ystadegau meincnodi o 'Cydraddoldeb mewn Addysg Uwch: Adroddiad ystadegol 2019, Rhan dau: Myfyrwyr' yr Uned Her Cydraddoldeb.


### Trosolwg Nodweddion Gwarchoddedig

<b>Oedran:</b>	Mae 65.8% o boblogaeth myfyrwyr PDC rhwng 18-25 oed.
<b>Anabledd:</b>	Mae 15.8% o fyfyrwyr wedi datgan bod ganddynt anabledd.
<b>Hunaniaeth o ran Rhywedd:</b>	Mae 1.28% o fyfyrwyr wedi newid eu hunaniaeth rhyw.
<b>Hil:</b>	Mae 74.5% o fyfyrwyr israddedig PDC yn wyn Prydeinig, mae 6.6% yn fyfyrwyr Prydeinig o grŵp Du neu Leiafrifoedd Ethnig ac mae 17% yn fyfyrwyr rhyngwladol.
<b>Crefydd a Chred:</b>	Nid oes gan 55.46% o fyfyrwyr grefydd; mae 25.18% yn Gristnogion a 6.16% yn Fwslimiaid.
<b>Rhyw:</b>	Mae 47% o holl fyfyrwyr PDC yn ddynion; mae 53% yn ferched.
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol:</b>	Mae 83.91% o fyfyrwyr yn heterorywiol; mae 8.41% yn ddeurywiol, yn ddyn hoyw, yn fenyw hoyw/lesbiaidd neu arall. Dewisodd y 7.68% arall naill ai 'mae'n well gen i beidio â datgan' neu ni wnaethant ymateb.

## Proffil Myfyrwyr PDC

### Oedran

- Mae 46% (8383) o fyfyrwyr PDC rhwng 18 a 21 oed.
- Mae 0.3% yn llai na 18 oed a 9.4% yn 40 oed neu'n hŷn.

**Ffigur 1 – Oedran Myfyrwyr PDC**

Mae data ECU yn dangos bod 57.0% o'r holl fyfyrwyr ym mhrifysgolion y DU yn 21 oed ac iau, gyda 16.2% rhwng 22 a 25 oed, 14.9% yn 26 i 35 ac 11.9% yn 36 oed neu'n hŷn. Gan fod data ECU yn defnyddio gwahanol gategoriâu oedran i PDC, mae'n anodd tynnu cymariaethau â'r data hwn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyfran is o fyfyrwyr yn y grwpiau oedran iau yn PDC na'r sector, (46.3% >21 yn PDC o'i gymharu â 57% ar gyfer y sector).

### Anabledd

- Mae 15.8% o fyfyrwyr PDC wedi datgan anabledd.
- Anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dysprazia neu ADHD yw'r anabledd mwyaf cyffredin a ddatganwyd sy'n cyfrif am 40% o'r holl anableddau a ddatganwyd.

**Ffigur 2 - Cyfran y myfyrwyr yn ôl datganiad anabledd**

Anabledd (categoriâu HESA)	% poblogaeth myfyrwyr anabl	% cyfanswm poblogaeth myfyrwyr
Anabledd nad yw wedi'i restru uchod	5%	1%
Salwch hirsefydlog e.e. cancer, HIV, diabetes, clefyd y galon, epilepsi	9%	1%
Cyflwr iechyd meddwl e.e. iselder ysbryd, sgitsoffrenia neu anhwylder pryder	27%	4%
Nam corfforol/materion symudedd yn peri anhawster defnyddio breichiau neu ddefnyddio cadair olwyn	3%	0%
Nam cymdeithasol/cyfathrebu e.e. Syndrom Asperger/anhwylder awtistig	7%	1%
Anhawster dysgu penodol fel dyslecsia, dyspracsia neu AD(H)D	40%	6%
Dall neu nam gweledol difrifol na ellir ei gywiro drwy wisgo sbectol	1%	0%
Byddar neu nam difrifol ar y clyw	2%	0%
Anableddau lluosog	6%	1%
Dim anabledd hysbys	0%	84%

Mae data o holl SAU y DU yn dangos bod 12.9% o fyfyrwyr wedi datgan anabledd; adlewyrchir y data hwn ar gyfer data SAU Cymru (13.6%). Mae cyfran myfyrwyr PDC sy'n datgan anabledd yn uwch ar 15.8%. Mae data'r DU yn dangos bod gan 38.3% o fyfyrwyr anabl anabledd dysgu penodol, gyda chyfran is o fyfyrwyr â namau eraill. Mae'n ymddangos bod y data hwn yn debyg i ddata PDC, sef 40%. Mae iechyd meddwl yn y sector yn cyfrif am 23.9% o'r holl anableddau myfyrwyr a ddatganwyd. Mae cyfran myfyrwyr anabl PDC sydd â chyflwr iechyd meddwl yn uwch ar 27%.

### Hunaniaeth o ran Rhywedd

- Yn ystod 2019/20, gofynnwyd i'r myfyrwyr a oedd eu hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd iddynt adeg eu genedigaeth. Atebodd 95.15% o fyfyrwyr 'ydy' a nododd 0.85% o fyfyrwyr 'nac ydy'.
- Oherwydd niferoedd isel y myfyrwyr a ddatganodd 'nac ydy', cyflwynir y data ar gyfer PDC cyfan, ac nid yn ôl campws, ac mewn canrannau yn unig.

**Ffigur 3 – Hunaniaeth o ran Rhywedd Myfyrwyr**

	% Ydy - Mae fy hunaniaeth o ran rhywedd yr un fath â'r rhyw a neilltuwyd i mi adeg fy ngeni	% Nac ydy – Mae fy rhyw wedi cael ei ailbennu ers fy ngeni	% Mae'n well gen i beidio â dweud	% Data coll
<b>Cyfansymiau</b>	<b>95.15</b>	<b>0.85%</b>	<b>3.95%</b>	<b>0.03%</b>

Mae'r ECU yn adrodd lefel uchel o sefydliadau nad ydyn nhw'n adrodd ar y data hwn ar hyn o bryd (16.7%). Fodd bynnag, ar gyfer y sefydliadau hynny a adroddodd, datganodd 2.7 o fyfyrwyr fod eu hunaniaeth o ran rhyw yn wahanol i'r hyn a neilltuwyd iddynt adeg eu geni.

### Hil

- Mae 71.6% o fyfyrwyr PDC (Israddedig ac Ôl-raddedig) yn wyn Prydeinig.
- Mae 6.14% o gyfanswm poblogaeth myfyrwyr PDC yn dod o grŵp Du neu Leiafrifoedd Ethnig.

Mae'r tabl canlynol yn dangos niferoedd a chanrannau'r myfyrwyr israddedig yn ôl ethnigrwydd a chyfadran. Mae'n categoreiddio'r myfyrwyr yn bedwar grŵp - 'Gwyn Prydeinig' (ar gyfer myfyrwyr Gwyn Prydeinig), 'BME y DU' (ar gyfer myfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig Prydain), 'Nad ydynt o'r DU' (ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol) a 'Ddim yn hysbys' ar gyfer myfyrwyr sydd heb ateb y cwestiwn neu wedi dewis 'Mae'n well gen i beidio â dweud.'

**Ffigur 4 – Ethnigrwydd poblogaeth myfyrwyr israddedig**

Myfyrwyr Israddedig	Gwyn y DU		BME y DU		Nad ydynt o'r DU		Gwrthodwyd/ Anhysbys	
	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->
FCES	2423	67.12%	250	6.93%	851	24%	86	2.38%
FCI	3134	67.65%	342	7.38%	1041	22%	116	2.50%
FLSE	4861	84.82%	325	5.67%	484	8%	61	1.06%
<b>Cyfanswm</b>	<b>10418</b>	<b>74.55%</b>	<b>917</b>	<b>6.56%</b>	<b>2376</b>	<b>17%</b>	<b>263</b>	<b>1.88%</b>

**Ffigur 5 – Ethnigrwydd poblogaeth myfyrwyr ôl-raddedig**

Myfyrwyr ôl- raddedig	Gwyn y DU		BME y DU		Nad ydynt o'r DU		Gwrthodwyd/Anhysbys	
	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->	Cyfrif Myfyrwyr	% <->
FCES	235	41.23%	25	4.39%	295	52%	15	2.63%
FCI	840	52.34%	79	4.92%	640	40%	46	2.87%
FLSE	1424	81.89%	86	4.95%	193	11%	36	2.07%
<b>Cyfanswm</b>	<b>2499</b>	<b>63.83%</b>	<b>190</b>	<b>4.85%</b>	<b>1128</b>	<b>29%</b>	<b>98</b>	<b>2.50%</b>

**Crefydd a Chred**

- Datganodd 55.46% o fyfyrwyr nad oes ganddynt 'unrhyw grefydd' o gymharu â ffigur is o 40.8% a ddatganwyd gan SAU y DU yn gyffredinol.
- Cristion yw'r ail uchaf gyda 25.18% o fyfyrwyr yn datgan yn debyg i'r data a ddarperir ar gyfer SAU y DU (26.9).

**Ffigur 6 – Crefydd a Chred myfyrwyr PDC**

Crefydd a Chred	Cyfrif Myfyrwyr	% o'r cyfanswm
Unrhyw grefydd neu gred arall	558	3.09%
Bwdhaidd	193	1.07%
Cristnogol	4542	25.18%
Hindw	379	2.10%
Gwrthodwyd gwybodaeth/dim ymateb	767	4.25%
Iddewig	18	0.10%
Mwslimaidd	1111	6.16%
Dim crefydd	10004	55.46%
Sikh	132	0.73%
Ysbrydol	333	1.85%
<b>Cyfanswm Terfynol</b>	<b>18037</b>	<b>100.00%</b>

Mae data holl SAU y DU yn dangos bod cyfran isel o sefydliadau ar hyn o bryd yn adrodd ar grefydd neu gred (81.9%).

**Rhyw**

- Mae 53% o gyfanswm poblogaeth y myfyrwyr yn fenywaidd. Mae'r sector hefyd yn dangos cyfran fwy o fyfyrwyr benywaidd yn gyffredinol; 55.4% ar gyfer SAU Cymru a 57% o fyfyrwyr SAU y DU.
- FLSE sydd â'r gyfran fwyaf o gyfanswm myfyrwyr benywaidd (70%) a FCES sydd â'r lleiaf ar 27%.

**Ffigur 7 – Rhyw myfyrwyr Israddedig yn ôl Cyfadran**

Cyfadran	Israddedig			
	Merched	% <->	Dynion	% <->
FCES	961	27%	2650	73%
FCI	2454	53%	2177	47%
FLSE	3893	68%	1835	32%
Cyfanswm	7352	52%	6765	48%

\*56.5%:43.5% cymhareb myfyrwyr israddedig benywaidd:gwrywaidd yn SAU y DU.

**Ffigur 8– Rhyw myfyrwyr ôl-raddedig yn ôl Cyfadran**

Cyfadran	Ôl-raddedig			
	Merched	% <->	Dynion	% <->
FCES	164	29%	406	71.23%
FCI	813	51%	791	49.31%
FLSE	1310	75%	428	24.63%
Cyfanswm	2287	58%	1626	41.55%

\*58.3%:41.7% cymhareb myfyrwyr ôl raddedig benywaidd:gwrywaidd yn SAU y DU.

### Cyfeiriadedd Rhywiol

- Mae cyfraddau datgan cyfeiriadedd rhywiol yn uwch yn PDC nag yn y sector (7.68% o'i gymharu â 25.1%).

**Ffigur 9 – Cyfeiriadedd rhywiol pob myfyriwr sydd â chymharydd SAU y DU.**

Cyfeiriadedd Rhywiol	% myfyrwyr PDC	Sector y DU %*
Deurywiol	3.69%	2.5%
Dyn hoyw	1.49%	1.2%
Menyw hoyw/lesbiaidd	1.11%	0.6%
Heterorywiol	83.91%	69.3%
Gwrthodwyd gwybodaeth/heb ei ddarparu	7.68%	25.1%
Arall	2.12%	1.3%

\*myfyrwyr mewn sefydliadau sy'n dychwelyd data